SL(5)388 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu ffioedd penodol sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am amrywiol drwyddedau, arolygiadau, gwiriadau a gwaith sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Maent yn diddymu'r gyfundrefn ffioedd bresennol ar gyfer y ffioedd hynny sydd i'w cynyddu.

Gweithdrefn

Negyddol.

Craffu ar faterion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu ffioedd sydd i'w talu i Weinidogion Cymru yn yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod.

Goblygiadau sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd yr offeryn hwn yn dod yn rhan o gyfraith yr UE ar ddargedwir.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
19 Mawrth 2019